**Edwina Hart MBE OStJ AC / AM**
**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**
**Minister for Business, Enterprise, Technology and Science**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Aelodau'r Cynulliad

15 Ionawr 2013

Annwyl Aelodau'r Cynulliad

Ym mis Hydref y llynedd amlinellais ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad polisi ar Ardrethi Busnes a gynhaliwyd gan yr Athro Brian Morgan a'i Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Yn fy ymateb, cyhoeddais y byddai Llywodraeth Cymru yn sefydlu cynllun ardrethi busnes yn y saith Ardal Fenter a chynllun llai i gefnogi cynhyrchwyr ynni adnewyddadwy ledled Cymru. Wedi hynny, ysgrifennais at holl Aelodau'r Cynulliad yn holi barn am y meini prawf.

Rwy'n falch o'ch hysbysu y bydd y ddau gynllun yn cael eu lansio heddiw.

Cynllun £20 miliwn yw Cynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter Cymru, dros bedair blynedd ariannol o 2012/13 i 2015/16 ar gyfer cwmnïau yn yr Ardaloedd Menter. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi £10 miliwn fel arian cyfatebol i swm canlyniadol Llywodraeth y DU. Bydd yn gynllun grant cystadleuol ym mhob Ardal, gyda blaenoriaeth i'r ceisiadau cryfaf. Bydd y flaenoriaeth bennaf i gwmnïau newydd a busnesau sy'n ehangu'u gweithluoedd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.ardaloeddmenter.cymru.gov.uk a www.enterprisezones.wales.gov.uk

Cynllun £1.5 miliwn yw Cynllun Ardrethi Busnes Cynhyrchwyr Ynni Adnewyddadwy Cymru sydd ar gael i fusnesau cymwys ym mhob rhan o Gymru a all ddangos eu bod yn gweithio yn llwyr er mwyn cynhyrchu gwres a/neu bŵer o ystod o ffynonellau adnewyddadwy. Er mwyn cefnogi cwmnïau newydd a ehangu swyddi gan gynhyrchwyr ynni adnewyddadwy, bwriedir i'r cynllun helpu'r sector i dyfu a helpu i gynyddu capasiti i gynhyrchu gwres a phŵer o ffynonellau adnewyddadwy.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.busnes.cymru.gov.uk a www.business.wales.gov.uk.

Hefyd, rwyf wedi gwneud Datganiad Ysgrifenedig heddiw i gyhoeddi y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â Chynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach Cymru o 2012-13 hyd at 2013-14. Mae'r cynllun yn rhoi cymorth gwerthfawr i fusnesau bach mewn cyfnod anodd iawn yn y cylchdro economaidd.

Mae'r Athro Brian Morgan yn rhoi cyngor pellach i mi ar nifer o faterion ynghylch ardrethi busnes, gan gynnwys ystyried y dyddiad ar gyfer yr ailwerthusiad. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn cael eu hysbysu am hynt y gwaith hwn maes o law.

